------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Tachwedd 2023

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Catherine Hunt**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

## (09:15 - 09:30 Rhag-gyfarfod)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

## 2 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - y Gweinidog Newid Hinsawdd

(09:30-10:45) (Tudalennau 1 - 28)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

Sarah Rhodes, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai, Llywodraeth Cymru

Stuart Fitzgerald, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cartrefi a Lleoedd, Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(Tudalen 29)

**3.1 Llythyr gan Anabledd Cymru - Cyllideb Ddrafft 2024-25**

(Tudalennau 30 - 32)

**3.2 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**

(Tudalen 33)

**3.3 Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad - Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

(Tudalennau 34 - 35)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn**

**5 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2**

(10.45-11.15)

**6 Blaenraglen waith**

(11.15-11.30) (Tudalennau 36 - 44)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Papur Tystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar Dai er mwyn i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai graffu arno ar 9 Tachwedd 2023

## CYD-DESTUN

1. Mae cartrefi diogel mewn lleoedd llewyrchus o bob math yn hanfodol i lesiant pobl ac i bob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys eu hiechyd a'u llesiant meddyliol a chorfforol, eu cyfleoedd a'u cyflawniad addysgol, eu canlyniadau cyflogaeth a'u llesiant cymdeithasol a diwylliannol. Fy nod cyffredinol yw bod pawb yn gallu byw mewn cartrefi a chymunedau gweddus, diogel a fforddiadwy sy'n diwallu natur amrywiol eu hanghenion.

2. Mae gweithgarwch wedi'i rannu'n fras yn bedwar prif faes - sut rydym yn defnyddio tir y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau manteision cymdeithasol ac arwain drwy esiampl wrth ddatblygu safonau; helpu'r sector i ddarparu rhagor o gartrefi (yn arbennig rhai fforddiadwy) ac adfywio ein trefi a'n dinasoedd; polisïau ac arferion i atal digartrefedd a chefnogi a diogelu preswylwyr a chymunedau; a ‘rheoleiddio’ er mwyn sicrhau safonau da a gwella safonau o ran ein stoc dai a'r ffordd y caiff ei rheoli.

## DIGARTREFEDD

3. Fel y nodwyd yn y dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i ddigartrefedd yn gynharach eleni, mae ein Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, yn nodi'r camau nesaf sy'n cael eu cymryd i roi ein strategaeth i roi diwedd ar ddigartrefedd ar waith ac mae wedi'i lywio gan argymhellion y Grŵp Gweithredu arbenigol ar Ddigartrefedd a gwersi a ddysgwyd drwy gydol y pandemig. Cyhoeddwyd Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu ym mis Awst 2023 ac mae'n rhoi trosolwg o'r cyd-destun sy'n newid, y cynnydd allweddol hyd yma a thablau camau gweithredu wedi'u diweddaru sy'n cynnwys nifer o gamau gweithredu wedi'u mireinio a gweithgareddau sylfaenol.

4. Yn ychwanegol at y diweddariadau a nodir yn y cynllun, ar 10 Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru. Mae diwygio cyfraith tai yn rhan allweddol o'r Rhaglen Lywodraethu (2021-2026) a'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru i roi diwedd ar bob math o ddigartrefedd yng Nghymru, drwy sicrhau ei fod yn ‘beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd’.

5. Mae'r Papur Gwyn yn canolbwyntio ar wella gweithgarwch atal ac ymyrryd yn gynnar, drwy gyflwyno pecyn o ddiwygiadau er mwyn newid system digartrefedd a thai bresennol Cymru yn sylweddol.

6. Drwy ddiwygiadau deddfwriaethol, fy nod yw cyflawni'r canlynol:

- Bydd y risg o ddigartrefedd yn cael ei hatal mor gynnar â phosibl a bydd y cyfrifoldeb am ganfod ac atal digartrefedd yn cael ei rannu gan bob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru;
- Bydd Awdurdodau Tai Lleol yn cynnig gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma a arweinir gan anghenion y rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd;
- Bydd y rhai y mae digartrefedd yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt yn cael budd o gynigion pwrpasol i liniaru'r risg y maent yn ei hwynebu.

7. Mae'r Papur Gwyn yn seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiadau Panel Adolygu Arbenigol Annibynnol y gofynnwyd iddo adolygu deddfwriaeth bresennol a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae mwy na 350 o bobl â phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd wedi rhannu eu barn er mwyn helpu i ddatblygu'r cynigion. Daw'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i ben ar 16 Ionawr 2024.

**DARPARU RHAGOR O GARTREFI**

8. Mae cynyddu'r cyflenwad tai yn rhan allweddol o'n huchelgais hirdymor i roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae tai cymdeithasol yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon a dyna pam rwyf wedi pennu'r ymrwymiad heriol i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu yn y sector cymdeithasol yn ystod tymor y llywodraeth hon.

9. Mae darparu 20,000 o gartrefi newydd yn fwy heriol nag erioed o dan yr amodau presennol ac, felly, rwyf wedi lansio amrywiaeth o fentrau a fydd yn darparu rhagor o gartrefi gwirioneddol fforddiadwy cyn gynted â phosibl er mwyn diwallu angen brys o rai tai.

10. Gwyddom fod buddsoddi mewn tai cymdeithasol yn lleihau tlodi, yn gwella iechyd ac yn helpu i ysgogi twf economaidd. Dyna pam rydym yn anelu at ddarparu 20,000 o gartrefi newydd ac rwyf wedi neilltuo mwy o arian nag erioed o'r blaen er mwyn gwneud hyn, gan ddyrannu £1.2biliwn dros bedair blynedd gyntaf tymor y Senedd hon.

11. Mae cyllideb y Grant Tai Cymdeithasol wedi'i chynyddu'n sylweddol yn unswydd i helpu i gyflawni'r targed ar gyfer tai gyda mwy nag £1.2bn yn cael ei ddyrannu ar gyfer pedair blynedd gyntaf tymor y Senedd hon (2021-2025).

12. Yn ogystal ag ymrwymo i fuddsoddi mwy nag erioed o'r blaen i ariannu cartrefi newydd, rwyf hefyd yn cefnogi amrywiaeth o fentrau a fydd yn darparu rhagor o gartrefi gwirioneddol fforddiadwy cyn gynted â phosibl er mwyn diwallu angen brys o ran tai, megis caffael eiddo, ailfodelu llety presennol, addasu adeiladau yn llety o ansawdd da a'r defnydd arloesol o ddulliau adeiladu modern a llety modiwlar ar safleoedd 'yn y cyfamser'.

13. Yn 2022-23, er mwyn helpu awdurdodau lleol i symud ymlaen o lety dros dro, lluniais y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro. Yn ei blwyddyn gyntaf, darparodd £76.4m i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er

mwyn sicrhau bod 936 yn rhagor o gartrefi yn cael eu defnyddio unwaith eto. Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, ailagorodd y rhaglen i geisiadau newydd ar gyfer 2023-24 ac mae'r ceisiadau hynny yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn helpu pobl i gael tai fforddiadwy tymor hwy yn y sector rhentu preifat, gyda £30m yn cael ei fuddsoddi yng Nghynllun Lesio Cymru yn ystod tymor y Senedd hon. Bydd cyfran o'r cartrefi a ddarperir drwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro a Chynllun Lesio Cymru yn cyfrif tuag at y targed ar gyfer tai.

14. Er gwaethaf yr ymrwymiad i fuddsoddi mwy nag erioed o'r blaen, mae'r sector tai yn wynebu sawl her o ran cyflawni'r targed i ddarparu 20,000 o dai. Rwy'n gweithio'n agos gyda'r sector er mwyn helpu i liniaru neu oresgyn yr heriau hyn lle y bo'n bosibl.

15. Rwyf am sicrhau bod cartrefi yn diwallu anghenion y bobl sydd eu hangen, nawr ac yn y dyfodol. Mae amcangyfrifon o'r angen a'r galw am dai yn y dyfodol yn hanfodol wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Ym mis Mawrth y llynedd, gwnaethom adolygu'r dull o gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Farchnad Dai Leol bob pum mlynedd ac i ddiweddaru eu Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol bob dwy flynedd. Mae'r asesiad hwn, yn ei dro, yn llywio Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) awdurdodau lleol, sy'n cynnwys targedau ar gyfer nifer y tai fforddiadwy y mae'r awdurdod yn anelu at eu darparu yn ystod cyfnod y cynllun. Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn hanfodol er mwyn pennu gofynion tai lleol a dylid ystyried lefelau digartrefedd lleol wrth bennu anghenion tai lleol.

**Y SECTOR RHENTU PREIFAT**

16. Mae fforddiadwyedd y Sector Rhentu Preifat i bobl sy'n cael budd-daliadau tai bod amser wedi bod yn anodd ac mae'n parhau i fod yn heriol iawn. Gan fod cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn cael eu pennu gan Lywodraeth y DU, a'u bod wedi'u rhewi ers mis Ebrill 2020 (yn seiliedig ar y 30ain ganradd o renti ym mis Medi 2019), mae'r bwlch rhwng cyfraddau Lwfans Tai Lleol a'r rhenti sy'n cael eu codi ar hyn o bryd yn sylweddol. Er gwaethaf galwadau mynych, mae Llywodraeth y DU yn parhau i rewi cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar y 30ain ganradd o renti yn 2020.

17. Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth ddiweddar i ymchwiliad y Pwyllgor i'r Hawl i Dai Digonol, rydym wedi cynnal ymgynghoriad Cais am Dystiolaeth ar gyfer Papur Gwyrdd yn ystod yr haf mewn perthynas â sicrhau llwybr at dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Medi ac ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn dadansoddi cyflwyniadau gan fwy na 370 o ymatebwyr.

18. Bydd tystiolaeth y Papur Gwyrdd, ynghyd â'r adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i dai digonol, yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu cynigion i'w nodi ac i ymgynghori arnynt yn y Papur Gwyn dilynol y flwyddyn nesaf.

**Eiddo Gwag**

19. Rwy'n cydnabod y gall cartrefi/eiddo gwag, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn wag am gyfnodau hir, achosi problemau i gymunedau lleol.

20. At ddibenion codi'r dreth gyngor, daw eiddo yn atebol i'w thalu ar ôl bod yn wag am chwe mis. At ddibenion codi premiymau'r dreth gyngor, diffinnir yr eiddo fel "gwag hirdymor" os yw wedi bod yn wag am fwy na 12 mis.

21. Gan y gall y broses o werthu cartref gymryd cryn dipyn o amser, mae'r ffigurau ar gyfer tai gwag yn cynnwys tai sydd ar y farchnad i'w gwerthu. Gall hyn roi camargraff.

**Ystadegau**

22. Dengys yr ystadegau diweddaraf ar gyfer 2023/24, a ryddhawyd ar 19 Ionawr 2023, fod 22,457 o eiddo gwag hirdymor yng Nghymru. Roedd 24,170 o ail gartrefi wedi'u cofnodi yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod.

23. Er bod unrhyw gynnydd yn anffodus, mae'r cynnydd hwn yn un cymharol fach (317 neu 1.4%) o gymharu â'r ffigurau blaenorol (22,140 ar gyfer 2022-23) ac mae nifer y cartrefi gwag hirdymor, sef 22,457, 3,244 yn llai na'r ffigur ar gyfer 2021-22 (25,701) a 2,861 yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer 2019-22 (25,318).

24. Mae'n anodd gwybod yr union resymau dros y cynnydd ond mae'n bosibl bod cost gynyddol deunyddiau adeiladu, prinder contractwyr adeiladu, yr argyfwng costau byw a'r cyfraddau llog cynyddol oll wedi chwarae eu rhan.

**Premiwm y Dreth Gyngor ar Eiddo Gwag**

25. Rydym wedi rhoi pwerau i awdurdodau lleol godi premiymau'r dreth gyngor o hyd at 300% ar anheddau gwag hirdymor (yn ogystal ag ail gartrefi).

26. Awdurdodau lleol sy'n penderfynu a ddylid codi premiwm ac ar ba lefel y dylid ei godi.

27. Gall awdurdodau lleol deilwra'r defnydd y maent yn ei wneud o'r premiymau at eu hamgylchiadau lleol ac er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a'r blaenoriaethau penodol yn eu hardal – gan gydnabod y gall awdurdodau gwahanol wynebu heriau gwahanol iawn o ran tai. Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion y premiymau a godir gan awdurdodau lleol yn 2023-24.

| **2023-24** | Premiwm ar Eiddo Gwag Hirdymor |
|---|---|
| Ynys Môn | 100% |
| Gwynedd | 100% |
| Conwy | 50% |

| | |
|---|---|
| Sir Ddinbych | 50% |
| Sir y Fflint | 75% |
| Wrecsam | 50% |
| Powys | 100% |
| Ceredigion | 25% |
| Sir Benfro | 25/50/100% |
| Abertawe | 100% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 100% |
| Bro Morgannwg | 100% |
| Rhondda Cynon Taf | 50/100% |
| Merthyr Tudful | 100% |
| Caerdydd | 100% |

28. Ar ôl ymgynghori ynghylch diwygiadau i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn yr eithriadau presennol i gynnwys premiwm y dreth gyngor ar eiddo ag amod cynllunio sy'n nodi mai dim ond ar gyfer llety gwyliau y gellir defnyddio'r eiddo neu sy'n atal yr eiddo rhag cael ei feddiannu'n barhaol fel unig breswylfa neu brif breswylfa unigolyn. Byddai eiddo o'r fath yn atebol am dalu'r dreth gyngor ar y gyfradd safonol pe na bai'n bodloni'r meini prawf gosod i gael ei ystyried yn eiddo annomestig ond ni ellid codi premiwm arno. Mae hyn yn gyson â safbwynt ein polisi y dylai perchnogion eiddo wneud cyfraniad teg i gymunedau lleol naill ai drwy drethiant lleol neu drwy'r budd economaidd y maent yn ei sicrhau i ardal.

29. Gosodwyd y rheoliadau diwygio gerbron y Senedd ar 6 Mawrth 2023 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2023, ynghyd â'r newidiadau i'r meini prawf gosod a lefel uchaf premiwm y dreth gyngor.

30. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol ar weithredu a gorfodi premiymau'r dreth gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi ar 9 Mawrth 2023. Maent yn nodi'r pwerau disgresiwn a'r opsiynau ychwanegol sydd ar gael i awdurdodau lleol os na fydd eiddo hunanddarpar nad yw'n cael ei gyfyngu gan amodau cynllunio yn bodloni'r meini prawf gosod.

**<u>Grant Cartrefi Gwag</u>**

31. Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddais y Cynllun Grant Cartrefi Gwag cenedlaethol.

32. Mae buddsoddiad gwerth hyd at £50m yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod hyd at 2,000 o eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio eto.

33. Bydd grantiau gwerth hyd at £25,000 ar gael i berchnogion tai neu ddarpar berchnogion tai er mwyn iddynt gael gwared â pheryglon sylweddol o'u heiddo i'w wneud yn ddiogel i fyw ynddo a gwella ei effeithlonrwydd ynni.

34. Ar wahân i berchen-feddianwyr, gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, awdurdodau lleol a grwpiau tai cymunedol wneud cais am y cyllid hwn ar gyfer

eiddo gwag y maent yn ei gaffael er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio eto fel tai fforddiadwy.

35. Bydd y cyllid hwn yn cyflymu ein gwaith i sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio eto ac yn ategu ein cynlluniau presennol.

**Benthyciadau - Eiddo a Thrawsnewid Trefi**

36. Rwyf wedi rhoi cyllid ailgylchadwy gwerth bron i £43m i awdurdodau lleol er mwyn iddynt roi benthyciadau eiddo am ddim i landlordiaid a pherchnogion tai wneud gwelliannau i gartrefi neu adnewyddu eiddo gwag a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio eto. Mae hyn yn cynnwys troi eiddo masnachol yn dai neu'n fflatiau gyda landlordiaid yn gallu cael benthyciadau gwerth hyd at £35k fesul uned neu £250k fesul cais.

37. Mae'r cynllun parhaus hwn wedi'i ddefnyddio er mwyn sicrhau bod tua 1,800 o unedau a oedd yn eiddo gwag yn cael eu defnyddio eto ledled Cymru ac mae wedi helpu i ariannu gwelliannau i 1,600 o gartrefi eraill sydd wedi'u meddiannu. Felly, mae cyfanswm o 3,400 o unedau naill ai'n cael eu defnyddio eto neu wedi cael eu gwella o ganlyniad i'r cynllun hwn.

38. Yn ogystal â hyn, sicrhawyd bod 330 o unedau preswyl yng nghanol trefi yn cael eu defnyddio eto drwy ein cynllun Benthyciadau Trawsnewid Trefi.

39. Gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddefnyddio Benthyciadau Trawsnewid Trefi i ddarparu tai cymdeithasol/fforddiadwy o eiddo gwag. Ym Mro Morgannwg, defnyddiodd Cymdeithas Tai Newydd fenthyciad gwerth £1m i ailddatblygu safle gwag er mwyn creu naw fflat fforddiadwy. Ym Mhowys, rhoddwyd benthyciad o £270k i'r landlord cymdeithasol cofrestredig er mwyn trawsnewid hen Lys Ynadon y Drenewydd yn saith uned ddomestig fforddiadwy.

**Mesurau gorfodi i ddelio â chartrefi/eiddo gwag**

40. Rwy'n helpu awdurdodau lleol i ddefnyddio'r holl bwerau deddfwriaethol sydd ganddynt i fynd i'r afael ag eiddo gwag.

41. Rydym wedi darparu hyfforddiant i fwy nag 850 o gynghorwyr a swyddogion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ar ddefnyddio mesurau gorfodi i ddelio ag eiddo gwag.

42. Roedd yr hyfforddiant hwn yn ymdrin â'r amrywiaeth eang o bwerau a deddfwriaeth sydd ar gael i ddelio ag eiddo sydd mewn cyflwr gwael ac eiddo gwag sy'n cael effaith negyddol ar ganol ein trefi a'n cymunedau lleol.

43. Mae pob awdurdod lleol wedi llunio Cynlluniau Gorfodi ar gyfer Eiddo Gwag y mae pob un ohonynt yn nodi eiddo gwag ar gyfer camau gweithredu â blaenoriaeth.

44. Mae ein Harbenigwr yn y Diwydiant wedi gweithio mewn partneriaeth â'r 22 o ALlau er mwyn rhoi cyngor penodol ac arbenigol ar achosion unigol.

45. Rydym wedi sefydlu Cronfa Gorfodi ar gyfer Eiddo Gwag er mwyn dadrisgio camau gorfodi i awdurdodau lleol. Mae'r gronfa hon yn golygu y gall awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi heb fod ofn bod ar eu colled yn ariannol. Rydym wedi ymestyn mynediad i'r gronfa i gynnwys eiddo preswyl nad yw yng nghanol trefi, er mwyn cefnogi ein gwaith ehangach ar gartrefi gwag.

**AIL GARTREFI**

46. Rwyf hefyd am sicrhau bod gan bawb gartref gweddus a fforddiadwy i'w brynu neu ei rentu yn eu cymunedau eu hunain er mwyn iddynt allu byw a gweithio yn lleol. Yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor i ail gartrefi y llynedd, rydym wedi bod yn rhoi diweddariadau bob chwe mis ar gynnydd sylweddol ein hymyriadau cenedlaethol yn ogystal â'r cynllun peilot yn Nwyfor a'r gwerthusiad annibynnol ohono.

47. Ers fy nhystiolaeth lafar ddiwethaf i'r Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno amrywiaeth o fesurau fel rhan o ddull gweithredu eang a chytbwys. Fis Ebrill diwethaf, gwnaethom newidiadau i'r lefel uchaf o bremiymau'r dreth gyngor y gall awdurdodau lleol eu codi ar ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor. Ar yr un pryd, gwnaethom hefyd gyflwyno newidiadau i'r meini prawf a ddefnyddir i ddosbarthu llety gwyliau byrdymor ar gyfer trethi lleol, er mwyn sicrhau bod perchnogion a gweithredwyr yn gwneud cyfraniad teg i'w cymunedau lleol. Mae'r newidiadau hyn yn ategu'r rhai a gyflwynwyd gennym ym mis Hydref 2022 i ddeddfau cynllunio, gan roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol reoli nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau byrdymor yn y dyfodol.

48. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn codi premiymau'r dreth gyngor ers 2017-18. Eleni, mae naw o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn codi premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor. Ar hyn o bryd mae'r premiymau ar ail gartrefi yn amrywio o 25% yng Ngheredigion i 150% yng Ngwynedd. Mae chwe awdurdod lleol arall yn codi premiymau ar anheddau gwag hirdymor yn unig.

49. Rydym hefyd wedi annog awdurdodau lleol i gyhoeddi manylion yr arian a godir, nifer yr ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor y codwyd premiymau arnynt a gwybodaeth am y ffordd y cafodd y premiymau eu gwario.

50. Fel rhan o'r ymyriadau sydd ar waith yn ardal Cynllun Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd, sef Dwyfor, rydym wedi darparu cymorth adnoddau i Gyngor Gwynedd mewn cysylltiad â chyfarwyddyd posibl o dan Erthygl 4 (cynllunio) yn Nwyfor. Mae Cyngor Gwynedd wedi cwblhau'r ymgynghoriad cyntaf yng Nghymru ynghylch y defnydd arfaethedig o'r pwerau newydd a mater i'r Cyngor fydd penderfynu beth y mae am ei wneud nesaf. Bydd cyllid yn ein galluogi i gynnal asesiad parhaus o gostau a goblygiadau cyfarwyddiadau Erthygl 4, a hynny drwy'r gwerthusiad annibynnol. Byddwn yn rhannu gwybodaeth yn eang tra bydd y cynllun peilot yn mynd rhagddo.

51. Mae'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg wedi darparu cymorth grant drwy brosiect Perthyn i 21 o grwpiau cymunedol er mwyn helpu i greu mentrau cymdeithasol newydd a thai cydweithredol dan arweiniad y gymuned. Lansiwyd ail gylch o gyllid grant yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

52. Cyhoeddodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg Bapur Sefyllfa ym mis Mehefin a oedd yn nodi canfyddiadau ei drafodaethau a'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma. Bydd y Comisiwn, a gadeirir gan Dr Simon Brooks, yn cyhoeddi ei adroddiad a'i argymhellion terfynol ym mis Awst 2024.

**TAI CYDWEITHREDOL A THAI DAN ARWEINIAD Y GYMUNED**

53. Er mai tai cymdeithasol yw'r brif flaenoriaeth o ran darparu tai, mae gan dai cydweithredol a thai dan arweiniad y gymuned ran i'w chwarae yn yr ateb tai. Rwy'n ymrwymedig i gynyddu'r cyllid a ddarperir i grwpiau a arweinir gan y gymuned a'i gwneud yn haws iddynt gael gafael ar y cyllid hwnnw.

54. Gan adeiladu ar ein cymorth hanesyddol i dai cydweithredol a thai dan arweiniad y gymuned, rydym wedi cynyddu'r cyllid a ddarperir gennym drwy Cwmpas i £180,000 o gyllid refeniw am dair blynedd (2022-23 i 2024-25). Mae hyn yn cyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "gefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol'. Ar hyn o bryd, mae Cwmpas yn cefnogi tua 50 o grwpiau tai dan arweiniad y gymuned.

55. Ar hyn o bryd, rydym yn treialu proses lle y gall grwpiau cydweithredol a grwpiau a arweinir gan y gymuned gael cyllid o'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau. Gall grwpiau a arweinir gan y gymuned hefyd fanteisio ar y rhaglen Grant Cartrefi Gwag.

56. At hynny, fel rhan o'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, mae Prosiect Perthyn yn darparu gwasanaeth cynghori a chymorth pwrpasol er mwyn grymuso grwpiau cymunedol i sefydlu mentrau cymdeithasol newydd a chwmnïau tai cydweithredol o dan arweiniad y gymuned. Fel y nodwyd uchod, yn y cylch cyntaf mae 21 o grwpiau cymunedol wedi cael cymorth grant gyda saith yn anelu at ddarparu tai dan arweiniad y gymuned.

57. Rydym yn parhau i ddarparu cymorth hefyd er mwyn helpu grwpiau cydweithredol a grwpiau a arweinir gan y gymuned sy'n awyddus i ddatblygu cartrefi newydd i gael Grant Tai Cymdeithasol lle maent mewn partneriaeth â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

**DIOGELWCH ADEILADAU**

58. Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â diogelwch adeiladau yng Nghymru ac yn parhau i ddatblygu ein rhaglen cyweirio adeiladau, ochr yn ochr â rhaglen ddiwygio sylweddol i sefydlu cyfundrefn diogelwch adeiladau sy'n addas at y diben yng Nghymru.

59. Mae diogelwch adeiladau yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio. Byddwn yn gweithio gyda'r aelodau dynodedig o Blaid Cymru er mwyn diwygio'r system diogelwch

adeiladau bresennol yn sylweddol a chyflwyno ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru.

60. Yn wahanol i Loegr, nid yw'r gallu i gael cymorth drwy ein rhaglen gyweirio yn seiliedig ar bresenoldeb cladin anniogel. Mae'r Rhaglen yn edrych ar faterion diogelwch tân mewnol ac allanol mewn dull adeilad cyfan sy'n rhoi diogelwch pobl yn gyntaf.

61. Rydym wedi nodi'n glir na ddylai lesddeiliaid na phreswylwyr orfod talu am waith adeiladu i ddatrys problemau diogelwch tân nad ydynt yn gyfrifol amdanynt. Mae cyllideb gwerth £375m wedi'i dyrannu er mwyn gwneud gwaith lle y bo angen.

62. Mae cam cyntaf gwaith Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru yn ariannu arolygon diogelwch tân mewnol ac allanol ar gyfer adeiladau preswyl sy'n 11 metr neu fwy o uchder. Hyd yma, mae arolwg wedi'i gynnal o 163 o adeiladau. Mae'r gronfa yn parhau i fod ar agor i bersonau cyfrifol gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb.

63. Mae ail gam y gronfa yn canolbwyntio ar gyweirio adeiladau. Mae adeiladau yn perthyn i un o bedwar categori, sef datblygwyr mawr, datblygwyr llai, amddifad a'r sector cymdeithasol.

- **Datblygwyr Mawr -** Mae 10 o ddatblygwyr tai preswyl mwyaf y DU wedi llofnodi contractau â Llywodraeth Cymru sy'n eu rhwymo i wneud gwaith diogelwch tân yng Nghymru, sef Redrow, Lovell, Vistry, Countryside, Persimmon, McCarthy Stone, Taylor Wimpey, Crest Nicholson, Barratts a Bellway. Mae'r contractau yn cwmpasu 123 o adeiladau ledled Cymru y mae angen gwneud gwaith ar 84 ohonynt.

  Mae swyddogion wedi ymestyn y rhestr o ddatblygwyr ac wedi gwahodd tri datblygwr arall i ymgysylltu â ni a llofnodi'r contract.

- **Datblygwyr Llai** – Wrth i ni fwrw ymlaen â'r Rhaglen ar ôl cael sicrwydd gan y datblygwyr preswyl mwyaf, rydym bellach yn mynd ati i ymgysylltu â datblygwyr bach ac yn gofyn iddynt hwythau hefyd ysgwyddo eu cyfrifoldebau lle mae'n bosibl gwneud hynny o safbwynt ariannol. Mae swyddogion wedi cyflwyno cyngor i Weinidogion ar opsiynau ar gyfer datblygu'r gwaith hwn.

- **Adeiladau Amddifad –** Adeiladau amddifad yw'r rhai lle mae'r datblygwr yn anhysbys, lle mae wedi rhoi'r gorau i fasnachu neu lle mae'r adeilad yn fwy na 30 oed. Mae'r Gweinidog wedi cytuno y caiff grŵp cychwynnol o 30 o adeiladau amddifad ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae rhestrau gwaith bellach yn cael eu datblygu cyn i waith cyweirio ddechrau, y bydd y naill a'r llall yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

- **Tai Cymdeithasol -** Ochr yn ochr â'r cymorth i'r sector preifat, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud hefyd i gyweirio adeiladau preswyl o uchder canolig ac uchel iawn yn y sector cymdeithasol. Hyd yma, mae £94 miliwn wedi'i ddyrannu er mwyn cefnogi mwy na 100 o adeiladau yn y sector cymdeithasol.

Gwahoddwyd cylch pellach o geisiadau, er mwyn gwneud yn siŵr bod pob adeilad cymwys yn y sector cymdeithasol wedi cael cyfle i sicrhau yr ymdrinnir â materion diogelwch tân.

64. **Gwaith Arall –** Nod y Cynllun Cymorth Lesddeiliaid yw helpu pobl sydd mewn caledi ariannol sylweddol neu sy'n wynebu'r fath galedi o ganlyniad uniongyrchol i faterion diogelwch tân sy'n effeithio ar eu heiddo. Agorodd i geisiadau ar 27 Mehefin 2022.

65. Mae'r cynllun yn galluogi lesddeiliaid i werthu eu heiddo a, lle y bo'n briodol, mae'n rhoi dewis iddynt rhwng symud ymlaen neu, o bosibl, rentu'r eiddo unwaith eto. Hyd yma, mae'r cynllun wedi cael 20 o geisiadau. Roedd 10 o'r rhain yn gymwys: mae dau lesddeiliad wedi cwblhau'r broses o werthu eu heiddo, mae chwech wrthi'n gwerthu eu heiddo ac mae dau yn mynd drwy'r broses gyda Banc Datblygu Cymru.

66. Rydym hefyd wedi cael gwybod am sawl achos lle mae Personau Cyfrifol/Asiantau Rheoli wedi cyflogi ymgynghorwyr/contractwyr yn breifat i wneud gwaith arolygu a chyweirio a fyddai, fel arall, wedi cael ei ariannu drwy Gronfa Diogelwch Adeiladau Cymru. Ar ôl ystyried y mater hwn, cytunais i ad-dalu costau arolygon pan oedd arolygon wedi'u cynnal cyn i Gronfa Diogelwch Adeiladau Cymru gael ei lansio ym mis Medi 2021.

67. Ers hynny, rwyf wedi cytuno i ariannu'n ôl-weithredol unrhyw waith a wnaed mewn adeiladau amddifad. Gwahoddwyd ceisiadau o fis Awst 2023 ymlaen.

68. Bydd ein rhaglen **DDIWYGIO** yn newid y diwylliant diogelwch adeiladau a'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru yn llwyr.

69. Mae'r cam cyntaf i roi'r gyfundrefn rheolaeth adeiladu newydd ar waith yn mynd rhagddo. Bydd yn cychwyn newidiadau deddfwriaethol er mwyn datrys problemau gyda'r gyfundrefn bresennol, drwy gyflwyno rheoliadau mwy llym ar y proffesiwn rheolaeth adeiladu, sy'n cynnwys cymeradwywyr rheolaeth adeiladu preifat, arolygwyr adeiladau ac awdurdodau lleol sy'n arfer swyddogaethau rheolaeth adeiladu. Bydd y ddarpariaeth hon hefyd yn newid pwy all roi cyngor ar waith rheolaeth adeiladu penodol a'i wneud, er mwyn gwella lefelau cymhwysedd, tryloywder ac atebolrwydd yn y proffesiwn rheolaeth adeiladu. Diben hyn yw gwneud yn siŵr mai dim ond unigolion sydd wedi dangos y cymhwysedd perthnasol sy'n rhoi cyngor i benderfynwyr cyn i benderfyniadau rheolaeth adeiladu pwysig gael eu gwneud.

70. Dechreuwyd gosod is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd, a fydd yn arwain at greu'r cofrestrau ar gyfer pob Arolygydd Adeiladau a Chymeradwywr Rheolaeth Adeiladu.

71. Byddwch yn ymwybodol ein bod yn bwriadu i'r broses gofrestru newydd agor ym mis Ionawr 2024, gyda'r nod o symud i'r gyfundrefn newydd o fis Ebrill 2024 ymlaen.

72. Rydym yn gweithio'n gyflym ar Fil Diogelwch Adeiladau i Gymru, a gaiff ei gyflwyno yn ddiweddarach yn ystod Tymor y Senedd hon. Bydd y cynlluniau diwygio hyn yn gwella atebolrwydd am ddiogelwch adeiladau pan fyddant yn cael eu meddiannu, gan sefydlu system reoleiddio gadarn a chydlynus, a fydd yn dwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif ac yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol a chywir yn cael ei dal am bob adeilad preswyl amlfeddiannaeth sydd o fewn y cwmpas. Bydd hyn yn cynnwys nodi person atebol a fydd yn gyfrifol am reoli risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch yr adeilad. Bydd ymgysylltu â phreswylwyr hefyd wrth wraidd ein cynigion.

73. Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, rydym yn ymwybodol o'r gyfundrefn feddiannu yn Lloegr a gyflwynwyd drwy Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022. Mae rhai nodweddion tebyg rhwng y gyfundrefn honno a'r cynigion diwygio a nodir yn ein Papur Gwyn, rydym yn parhau i'w datblygu. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau sylweddol hefyd a byddwn yn rhoi mwy o fanylion wrth i'r polisi ddatblygu

**Tîm Arolygu ar y Cyd**

74. Mae swyddogion yn gweithio gyda CLlLC i sefydlu Tîm Arolygu ar y Cyd a fydd yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi presennol i atgyfnerthu diogelwch adeiladau.

75. Bydd yn dwyn ynghyd dîm amlddisgyblaethol a fydd yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn cefnogi awdurdodau rheoleiddio presennol a rhoi cyngor ar gamau gorfodi posibl.

76. Penodwyd Dawood Haddadi yn Bennaeth y Tîm Arolygu ar y Cyd a bydd yn gweithio gyda'r gwasanaethau Tân ac Achub ac awdurdodau lleol i gytuno ar raglen arolygu'r Tîm Arolygu ar y Cyd yn y dyfodol.

**FFOSFFADAU MEWN AFONYDD**

77. Gwrthodwyd cynlluniau niwtralrwydd maethynnau Llywodraeth y DU drwy bleidlais yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 13 Medi. Er hynny, mae'r sefyllfa hon yn datblygu: mae Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried beth fyddai goblygiadau cynlluniau Llywodraeth y DU i Gymru, yn enwedig i ddalgylchoedd trawsffiniol, petai Llywodraeth y DU yn ceisio bwrw ymlaen â'i chynlluniau drwy fil amgen.

78. Yn y cyfamser yng Nghymru, rydym wedi nodi'n glir nad ydym yn bwriadu rhoi'r gorau i'n mesurau amddiffyn amgylcheddol fel mae Llywodraeth y DU wedi ceisio ei wneud. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i iechyd ein hafonydd ac wedi nodi'n glir na fyddwn yn gostwng y safonau amgylcheddol yn hyn o beth.

79. Yn gynharach eleni, cynhaliodd y Prif Weinidog yr ail uwchgynhadledd ar yr heriau sy'n gysylltiedig â llygredd ffosfforws yng Nghymru ac, o ganlyniad i hynny, mae partneriaid allweddol – yn y sector dŵr, y sector tai, y sector cynllunio a'r sector amaethyddol – wedi cytuno ar gynllun gweithredu sydd ar gael ar-lein yn:

[Lleihau pwysau ar ddalgylchoedd afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) i helpu i gyflenwi tai fforddiadwy: cynllun gweithredu [HTML] | LLYW.CYMRU]

80. Er bod y Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar fater datgloi gwaith datblygu, rydym hefyd yn ymwybodol o'n hymrwymiad i wella iechyd cyffredinol afonydd yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi camau gweithredu, amserlenni a chyfrifoldebau clir er mwyn mynd i'r afael ag ansawdd dŵr ac ymdrin â chyfyngiadau cynllunio.

81. Rydym yn parhau i roi pwyslais ar gyflawni'r cynllun gweithredu ac mae'n hanfodol cyflymu ein gwaith i ddatgloi cynlluniau adeiladu cartrefi a lleihau llygredd ffosffadau – mae gan y sector adeiladu cartrefi rôl allweddol i'w chwarae ochr yn ochr â phartneriaid eraill megis Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector ffermio.

82. Drwy ein Cynllun Gweithredu rydym wedi cyflymu Adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o Drwyddedau er mwyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol allu gwneud penderfyniadau cynllunio ynghynt. Bydd trwydded newydd ar gyfer gwaith trin dŵr Five Fords yn rhyddhau bron i 3000 o anheddau sy'n gyfran fawr o'r ceisiadau nas penderfynwyd arnynt eto yn nalgylch afon Dyfrdwy.

83. Cafwyd ymgysylltu helaeth gan gynrychiolwyr o amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys dŵr, tai, cynllunio, amaethyddiaeth a chadwraeth amgylcheddol, mewn perthynas â'r gwaith hwn.

84. Mae swyddogion wedi arwain tri gweithdy ar gynlluniau tai fforddiadwy/ffosffadau. Diben y gweithdai yw rhoi cyfle i bartneriaid allweddol edrych yn fanwl ar astudiaethau achos o gynlluniau tai sydd wedi'u gohirio oherwydd materion sy'n ymwneud â ffosffadau, eu trafod fel grŵp ac ystyried a oes unrhyw ardaloedd y gellir eu rhyddhau neu roi mwy o ystyriaeth iddynt.

85. Rydym wedi comisiynu Partneriaethau Lleol i ddadansoddi safleoedd datblygu tai fforddiadwy sydd wedi'u gohirio oherwydd ffosffadau. Bydd y gwaith yn helpu i ddwyn ynghyd wybodaeth o'r adolygiad o drwyddedau gan Cyfoeth Naturiol Cymru a rhaglen fuddsoddi Dŵr Cymru ac yn ei defnyddio i flaenoriaethu rhagor o astudiaethau achos wedi'u targedu.

86. Cynhelir yr uwchgynhadledd nesaf ar lygredd mewn afonydd ar 30 Tachwedd lle byddwn yn ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r cynllun gweithredu ac yn parhau â'r ddeialog agored â phob sector allweddol o amgylch y bwrdd. Bydd yr Uwchgynhadledd yn canolbwyntio'n bennaf ar Dai a Chynllunio.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**9 Tachwedd 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| **Rhif y papur** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| Papur 2 | Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 | Anabledd Cymru | I'w nodi |
| Papur 3 | Deddf Rhentu Cartrefu (Cymru) 2016 | Y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | I'w nodi |
| Papur 4 | Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) | Cadeirydd at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad | I'w nodi |

Disability Wales
Anabledd Cymru

Dear Local Government and Housing Committee,

We are writing to you to express the importance of including specific financial support for disabled people in the upcoming 2024-2025 budget.

We have all felt the effects of the cost-of-living crisis, but we have not all experienced it equally. We have found that there are disabled people across Wales, forced to live in awful circumstances due to the twin problems of poverty and the cost-of-living crisis. A fifth of the population of Wales is disabled[1] and households containing at least one disabled person is more likely to be living in poverty,[2] disabled people are more likely to be economically inactive or if in work, that work is more likely to be insecure and low wage.[3] Poverty has long been a problem for disabled people living in Wales, but the rising cost-of-living is forcing people into worse and worse circumstances.

The 2023-2024 budget did not provide specific support for disabled people during the crisis and our findings from our report “Barely Surviving the impact of the cost-of-living crisis on disabled people” displays some of the consequences. We found that the financial support available was short-sighted, the cost-of-living payments supporting people to pay one month of bills, but nothing beyond. Disabled people often have more essential costs than non-disabled people, this extra cost of disability has not been accounted for, beyond the support already available.

The consequences are severe. Disabled people reported only being able to eat one meal a day, having to let go of support workers or stop going to vital therapies because of cost, being unable to run access equipment due to costs, in some cases losing their lives.

These have been difficult years to be a disabled person in Wales. We have been living through a mass-disabling coronavirus pandemic, in

---

[1] Office of National Statistics, Census 2021, “Disability, England and Wales: Census 2021”, 19th January 2023, <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021#how-disability-varied-across-england-and-wales>
[2] Joseph Roundtree Foundation, “UK Poverty 2023 – The essential guide to understanding poverty in the UK”, 20th January (2023), p65, <https://www.jrf. org.uk/sites/default/files/jrf/uk_poverty_2023_-_ the_essential_guide_to_understanding_poverty_ in_the_uk_0_0.pdf>
[3] Department for Work and Pensions, “Employment of disabled people 2022”, UK Government, 26th January (2023), https://www.gov.uk/government/ statistics/the-employment-of-disabledpeople-2022/employment-of-disabled-people2022#labour-market-statu

which disabled people have been disproportionately harmed. Disabled people have disproportionately been impacted by over a decade of austerity policies and with severe changes to their benefit entitlement from the UK Government, this period of financial uncertainty and continued poverty does not look likely to change.

We are calling for the Budget to include a series of recommendations and for certain questions to be asked of what we need and what is missing.

- The Welsh Government, health services and local authorities in Wales should provide specific support for the running and maintenance of disability related equipment, to ensure that all disabled people are not financially impacted by their need to use certain equipment.
- Welsh Government to urgently review its policy on social care charges, including whether the disregards for disability related expenditure are adequately protecting disabled people on low incomes with high costs.
- Urgent action to recognise and tackle mental health issues amongst disabled people, including pathways to accessing appropriate mental health support whether from social care, other areas of the health service and/or through peer support, such as from disabled people's organisations.
- Food subsidies should be considered to reduce the cost of food in shops. To supplement this, the Welsh Government and Local Authorities should provide support to and nurture the creation of community food schemes. These schemes should include accommodation for dietary requirements and include options for access requirements.
- Public transport, such as buses and trains, should be taken under public ownership to be delivered as a public service, including measures such as reduced ticket prices with the eventual goal to make public transport in Wales free.
- Provision of resources and capacity building measures to ensure the establishment and sustainability of at least one Disabled People's Organisation in every local authority, to support

coproduction of policies and services with public bodies, including peer support schemes for disabled people

- Commitment from the Welsh Government to prioritise tackling the extra cost of disability

For more information, please contact megan.thomas@disabilitywales.org. You can find our full report here: https://www.disabilitywales.org/wp-content/uploads/2023/07/Barely-Surviving-cost-of-living-report.pdf

Kind regards,

Megan Thomas

Policy and Research Officer

Disability Wales

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA/JJ/2739/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod fy swyddogion yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU i archwilio gweithio ar y cyd i wahardd arferion "dim DSS" a "dim Plant" mewn gosodiadau preswyl yng Nghymru. Yn fy marn i, byddai hyn yn cyflawni amcan polisi arwahanol sy'n ddymunol yng Nghymru.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n ategu cyfraith tai yng Nghymru, ac yn benodol yn sicrhau cysondeb â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Mick Antoniw AS,
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad,
Llywodraeth Cymru

3 Tachwedd 2023

Annwyl Mick,

**Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 26 Hydref mewn perthynas â'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a drafodwyd gennym.

### Cofrestru etholiadol heb gais

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan, er mwyn ychwanegu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer etholwyr ifanc ac etholwyr sy'n agored i niwed, y bydd y gofrestr etholiadol agored yn cael ei gwaredu ar gyfer etholiadau Cymreig. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod darpariaeth i alluogi hyn wedi'i chynnwys yn y Bil ac nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio sut y bydd y gofrestr yn cael ei gwaredu fel arall. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch pam nad yw'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn y Bil, a beth yw'r amserlenni ar gyfer ei gwaredu.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Offeryn Statudol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1953 i waredu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau Cymreig, a chytuno i gadarnhau pa weithdrefn fydd yn cael ei defnyddio i wneud yr is-ddeddfwriaeth.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi manylion a roddwyd ystyriaeth i'r effaith y gallai gwaredu'r gofrestr agored yng Nghymru ei chael ar fusnesau, elusennau a sefydliadau eraill.

### Gwasanaethau i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig

Mae adran 28 yn pennu bod yn rhaid gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i hybu amrywiaeth yn nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol personau



Senedd Cymru
Welsh Parliament

sy'n ceisio cael eu hethol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am y meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu amgylchiadau economaidd-gymdeithasol person er mwyn bod yn gymwys i gael gwasanaethau o'r fath.

Byddem yn ddiolchgar am ymateb erbyn 16 Tachwedd er mwyn ein helpu i ystyried y Bil.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a’r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon